Cydymdeimlad a Chofion

Newydd i'r rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled gael ei gyhoeddi, fe ddaeth y newydd trist am farwolaeth Mr Emlyn Davies (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwenda Davies a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid, a hen-daid annwyl a charedig, ac â Beti Williams, Glyn Davies a Mair Davies (Llansannan) a'u teuluoedd sydd wedi colli brawd arbennig. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt ac y byddant, ynghanol eu galar, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt**.**

Anfonwn ein cofion hefyd at Trebor Roberts (Llansannan) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, at Eurgain Pierce (Llannefydd) sydd bellach yn yr Inffirmari, ac at Merfyn Hughes (Llansannan) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Clatterbridge. Cofiwn hefyd am Megan Thomas (Cefn Berain) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am rai nosweithiau, a hefyd Dylan Owen (Llannefydd) dreuliodd noson mewn ysbyty yn yr Eidal yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddïo eu bod oll yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.

Mae Richard M. Jones (Cefn Berain) bellach wedi symud i gartref Tŷ Cariad, Abergele, a chofiwn am Gwen Evans (Saron) a Dilys Jones (Nantglyn) sydd hefyd mewn cartrefi gofal. Cyflwynwn hwy, ac eraill o'n plith sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd ar hyn o bryd, i ofal Duw gan weddïo eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Cyrsiau Coleg y Bala

⇒ **Clwb Hydref** (Gwersyll i blant 8-11 oed) yng Ngholeg y Bala o Hydref 30ain– 31ain, (dydd Llun a dydd Mawrth hanner tymor). Cyfle i dreulio amser yng nghwmni ffrindiau hen a newydd yn dysgu am Iesu, a bydd lot fawr o gemau, crefft, nofio, canu, ymlacio yn y stafell chwaraeon a pharti ar y nos Lun. Cost y deuddydd yw £45 *(gweler isod)*.

⇒ **Cwrs Ieuenctid (oed uwchradd Bl.7-10)** yng Ngholeg y Bala ar 3ydd – 5ed o Dachwedd (penwythnos olaf yr hanner tymor). Fe fydd y penwythnos yn llawn gweithgareddau, nofio, *inflatables*, crefft, gemau a sgyrsiau o'r Beibl. Cost: £69 *(gweler isod)*.

** Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth sydd am fynychu, ac mai hanner y pris yw'r gost i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu sy'n cynnwys bwyd, llety a'r holl weithgareddau. I archebu lle, ewch i: www.colegybala.org/Cymraeg/rhaglen-y-coleg neu ffoniwch 01678 520565. Am fwy o wybodaeth, ebostiwch colegybala@ebcpcw.cymru neu anfonwch neges ar Facebook neu Instagram.*

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon erbyn nos Fercher (25ain) – diolch.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15 Hydref 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Rhyfel eto

Nid hanesydd mohonof: dwi ddim yn gyfarwydd â'r holl hanes. Nid gwleidydd mohonof: dwi ddim yn gwybod yr atebion. Ac nid un o drigolion Israel na Gaza mohonof: does gen i ddim profiad o'u hamgylchiadau. Ond er cymhlethed y sefyllfa sy'n gwaethygu'n ddyddiol, onid oes rhai pethau syml a sylfaenol?

Onid yw'n amlwg nad oes neb yn ennill mewn rhyfel, a bod y miloedd a laddwyd yn Israel a Gaza dros y dyddiau diwethaf yn brawf o hynny? Oni ddylasai fod yn amlwg hefyd fod y gwarchae llym ar Gaza dros flynyddoedd lawer yn annynol? Ac oni ddylai fod yn amlwg i lywodraethau'r byd nad yw cefnogaeth ddiamod i'r naill ochr na'r llall ond yn cyfiawnhau'r trais a'r lladd a fydd yn parhau dros y dyddiau a hyd yn oed – Duw a'n gwaredo – yr wythnosau a'r misoedd nesaf?

Wrth gwrs bod ymosodiad Hamas ar Israel, a lladd dros fil o bobl o bob oed a chipio gwragedd a phlant yn wystlon, yn annynol a barbaraidd. Ac wrth gwrs bod ymateb Israel o amddifadu trigolion Gaza o fwyd a dŵr a thrydan, a lladd nifer tebyg yno'r un mor annynol. Ac onid annynol hefyd yr awgrym y gall eraill, yn arbennig Lywodraeth yr Unol Daleithiau, roi i bob pwrpas rwydd hynt i Israel wneud a fyn am rai wythnosau cyn pwyso arni i ymbwyllo a lleihau ei hymosodiadau ar Gaza? Pwy a ŵyr beth a ddigwydd mewn un diwrnod heb sôn am rai wythnosau wrth i lywodraethau, yn cynnwys Llywodraeth San Steffan, ruthro i ddatgan cefnogaeth ddiamod i Israel yn ei dioddefaint, ond trwy hynny roi'r argraff - o bosibl yn anfwriadol - o fod yn gwbl ddifater ynghylch dioddefaint pobl Gaza?

Ers bore Sadwrn diwethaf, gwelwyd y trais a'r lladd yn dwysáu; ac mae'r adroddiadau cyson nid yn unig o Israel a Gaza ond hefyd o'r Lan Orllewinol a Libanus yn frawychus ddychrynllyd. Mae anobaith ac arswyd a chwerwedd a chasineb a dicter a dialedd, o bob cyfeiriad, yn esgor ar gyflafan y mae'n amhosibl rhagweld ei gwaethaf, heb sôn am ddarogan ei diwedd.

Ac o anghysur a diogelwch f'anwybodaeth a'm dieithrwch, mentraf weddïo dros bobl Israel a Gaza a'r Dwyrain Canol yn ehangach, y daw rywfodd ac o rywle ddoethineb a dewrder i ddeisyfu a gweithredu'r heddwch a fydd wedi ei wreiddio mewn gwir gyfiawnder a pharch. Ac er bod deall cymaint â phosibl am unrhyw sefyllfa'n gymorth wrth weddïo, diolch y medrwn ar brydiau hefyd fentro at Dduw yn ein hanwybodaeth a'n dryswch, ac yn ein harswyd a'n tristwch.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Hydref 15fed

- **Oedfa Diolchgarwch yn Llansannan** am 9:30 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg. Gwerthfawrogir cyfraniadau tuag at y Banc Bwyd, os gwelwch yn dda. Bydd **Oedfa hefyd yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 – y ddwy oedfa o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Dafydd Picton Jones. Bydd Ysgol Sul yn Groes yn dilyn yr oedfa.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob prynhawn Sul arall).
- **Oedfa'r Fro –** Y tro hwn, yn hytrach na chynnal oedfa yn un o eglwysi'r Ofalaeth, rydym am dderbyn gwahoddiad ieuenctid ac oedolion Eglwys Emaus sy'n estyn croeso cynnes i ni ymuno â nhw mewn oedfa yng Ngholeg y Bala. Bydd Owain Edwards yn arwain yr oedfa ac Andy Hughes yn pregethu. Bydd paned ar gael o 5:30 ymlaen a bydd yr oedfa yn cychwyn am 6:00. Os ydych yn awyddus i gael lifft yno, plîs cysylltwch hefo Mair, neu os bydd ganddoch le i roi lifft i rywun arall, dewch i faes parcio Capel Coffa Henry Rees, Llansannan erbyn 4:45 yr hwyr, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb!

Dydd Llun, Hydref 16eg

- **Cymdeithas Llansannan –** Noson Agoriadol yng nghwmni Gwion Lloyd Evans 'Y Pencampwr Cneifio' yn Festri Llansannan am 7:30. Croeso i bawb.

Dydd Mawrth, Hydref 17eg

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.

Dydd Iau, Hydref 19eg

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn o dan ofal Sion Morris (Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid Gogledd Cymru), gyda chefnogaeth un o weithwyr Coleg y Bala, Anti Olwen a chyfeillion eraill. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?
- **Oedfa Diolchgarwch yng Nghapel Cefn Berain** am 7:00 gyda'r Parch. Huw Dylan yn pregethu. Bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Dydd Sul, Hydref 22ain

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. David Owens. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 ac **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn am 2:00** dan ofal yr aelodau. Croeso i bawb.

Dydd Llun, Hydref 23ain

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pantpastynog** o 3:00-4:00 y pnawn o dan ofal tîm Bro Dinbych.
- **Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Cefn Meiriadog** am 7:00 yr hwyr gyda'r Parch. Helen Wyn Jones yn pregethu. Bydd paned i bawb ar ôl y gwasanaeth. Gwneir casgliad at y Banc Bwyd a Baby Basics. Croeso cynnes i bawb.
- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Doethineb i'r Dydd' am 7:00 yr hwyr o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. *(Manylion mewngofnodi:* https://us02web.zoom.us/j/82697406470?pwd=aThkKohEUlFKTXFoMU8zL0ozV1FDZz09 neu deialwch 01314 601196 i ymuno ar y ffôn. *Meeting ID:* 826 9740 6470 *Passcode*: 901953*)* Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Mawrth, Hydref 24ain

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel Saron am 7:30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.
- **Oedfa Diolchgarwch yng Nghapel Groes** am 7:30 gyda'r Parch. Carwyn Siddall yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Mercher, Hydref 25ain

- **Oedfa Diolchgarwch Capel Soar, Llanfair Talhaiarn** am 7:00 gyda'r Parch. Owain Davies yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Iau, Hydref 26ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Festri Llansannan o 3:15–4:30.

Dydd Sul, Hydref 29ain

- **Oedfa yn Llanfair** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. W. Bryn Williams. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10:15.